

# Sefydlu Gwasanaeth Bwyd: Ystyriaethau

## Math o Wasanaeth

Pa fath o wasanaeth sydd ei angen?

Sut ydych chi'n gwybod fod angen amdano a sut byddwch chi'n sicrhau mai'r rhai sydd â'r angen am y gwasanaeth fydd yn cael mynediad iddo?

Oes unrhyw un arall yn gwneud yr un fath neu rywbeth tebyg yn lleol?  
A fyddai'n well ymuno â nhw?

**Pan fyddwch wedi sefydlu'r angen yn lleol byddwch yn gwybod pa fath o wasanaeth darparu bwyd sydd ei angen, e.e. banc bwyd, prydu, dosbarthiadau coginio, ayyb.**

## Mathau o Fwyd

**Mae'r mathau o fwyd yr hoffech ei dderbyn/ ei ailddosbarthu yn dibynnu, i raddau helaeth, ar y cyfleusterau storio sydd gennych.**

Os hoffech fwyd oer neu wedi'i rewi bydd angen i chi gael oergelloedd neu rewgelloedd er mwyn storio'r bwyd hwn, hyd yn oed os credwch y bydd y bwyd yn cael ei ailddosbarthu cyn gynted ag y byddwch yn ei dderbyn.

Ar gyfer ffrwythau a llysiau ffres a bwydydd sych megis pasta, tuniau, reis, ac ati, bydd angen i chi gael man storio uwchlaw lefel y llawr, e.e. silffoedd neu resel.

## Cyfarpar Arall

**Bydd angen i chi ystyried sut y byddwch yn dosbarthu bwyd i'ch cleientiaid.**

A fydd angen iddyn nhw ddod atoch chi?  
Oes angen i chi ddefnyddio fan neu feic â threlar?  
Sut fyddwch chi'n dosbarthu prydau poeth? A fydd angen i chi eu cadw'n gynnes?

Cyfarpar arall y gallai fod eu hangen arnoch: PPE (Cyfarpar Diogelu Personol), offer coginio, dysglau ar gyfer bwydydd wedi'u coginio/ bagiau neu focsys ar gyfer parseli bwyd, thermomedrau, rheolaeth stoc, offer glanhau a pheynnau cymorth cyntaf.

## Hyfforddiant a Gofynion Cyfreithiol

**Os hoffech dderbyn bwyd wedi'i oeri neu'i rewi bydd angen i chi yn gyntaf gofrestru gyda Iechyd yr Amgylchedd fel Busnes Bwyd.** Gallwch gofrestru am ddim ac ni chaiff ei wrthod – gellir gwneud hyn ar-lein <https://www.gov.uk/food-business-registration>.


**I dderbyn bwyd ffres, wedi'i oeri, wedi'i rewi neu fwyd sych bydd angen i'ch gwirfoddolwyr/ staff gwblhau hyfforddiant Hylendid Bwyd Lefel 2.** Bydd yr hyfforddiant hwn yn mynd trwy'r wybodaeth ar storio a pharatoi bwyd, rheoli tymereddau a'r hyn sy'n gwneud arfer dda o ran rheoli peryglon diogelwch bwyd.

## Cael Gafael ar Fwyd

Mae FareShare yn elusen aiddosbarthu bwyd gofrestredig sy'n gweithio gyda chyflenwyr yr archfarchnadoedd er mwyn cael mynediad at rywfaifnt o'u bwyd sydd dros ben. Mae hwn yn fwyd sydd dros ben yn y gadwyn gyflenwi am wahanol resymau gan gynnwys dyddiadau byrion, gor-archebu, camgymeriadau pecynnu, ac ati.

Mae'r bwyd a dderbynia FareShare yn gymysgedd o ffrwythau a llysiau ffres; bwyd wedi'i oeri gan gynnwys cig, pysgod a chynnyrch llaeth; bwyd wedi'i rewi a bwyd sych megis pasta, reis, tuniau, ac ati.

Caiff y bwyd hwn ei aiddosbarthu wedyn i elusennau, grwpiau cymunedol a mudiadau nid-er-elw sy'n gwneud rhywbeth gyda bwyd er mwyn cefnogi pobl yn eu cymuned leol.



Mae FareShare yn gweithredu ar sail aelodaeth ac am dâl misol bydd aelodau'n derbyn archeb fwyd wythnosol. I gofrestru fel aelod bydd gofyn i chi gwblhau Ffurflen Gais a Gwiriad Safle. Bydd hefyd angen i ni weld tystiolaeth o'r gofynion a amlinellir yn 'Hyfforddiant a Gofynion Cyfreithiol'.

**I ganfod mwy ynglŷn ag aelodaeth cysylltwch â'ch cangen FareShare leol heddiw:**

De Cymru: FareShare Cymru 02920 362111 / [info@fareshare.cymru](mailto:info@fareshare.cymru)

Gogledd Cymru: FareShare Glannau Mersi (Merseyside), cwblhewch y ffurflen ymholiadau ar y dudalen 'Getting Food'  
<https://fareshare.org.uk/getting-food/>

## Coronafeirws a Diogelwch Bwyd

Dilynwch y ddolen i gael y canllawiau diweddaraf ynglŷn â diogelwch bwyd yn ystod y pandemig Covid-19 presennol  
<https://www.srs.wales/en/Coronavirus/Coronavirus-FoodSafety.aspx>

## Bwyta'n Dda Gartref a'r Canllaw Bwyta'n Dda

Gweler yr wybodaeth a gynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ynglŷn â sut i fwyta'n dda gartref

<https://icc.gig.cymru/pynciau/coronafeirws/sut-wyt-ti/cadwn-gorfforol-iach/bwytan-dda-gartref/>

a'r Canllaw Bwyta'n Dda y mae nifer o fudiadau yn penderfynu seilio'u parseli bwyd arno

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/canllaw-bwytan-dda.pdf>

## Cynaliadwyedd

**Mae'n bwysig ystyried cynaliadwyedd hirdymor pan fyddwch yn sefydlu prosiect bwyd newydd** – wedi'r cyfan wyddwn ni ddim pa mor hir y bydd yr angen am gymorth yn parhau o dan yr amgylchiadau presennol.

Tra mai banc bwyd, o bosibl, yw'r ffordd orau o gwrdd â gofynion eich cymuned leol ar hyn o bryd, i fod yn gynaliadwy yn yr hirdymor gallech ystyried y Model Pantri (Pantry Model). Mae'r model yn seiliedig ar dderbynwyr yn talu tâl aelodaeth wythnosol ac mae'n debyg i archfarchnad gymdeithasol. Mae aelodau'n talu swm o X yr wythnos er mwyn derbyn X o eitemau o fwyd ac yn dewis yr eitemau yma eu hunain. Dilynwch y ddolen i ddarganfod mwy

<https://www.yourlocalpantry.co.uk/>

